Dyma ddrafft o lythyr gan ddisgybl ysgol sy'n chwilio am waith rhan amser.
Mae angen darllen drwy'r gwaith yn ofalus gan fod ynddo nifer o wallau iaith a bylchau.

31 Ffordd y Dŵr
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL34 6IE

12 Tachwedd

Annwyl Mr Smith

Rwy'n ysgrifennu …………………….. ar ôl gweld hysbyseb am weithwyr rhan amser yn eich gwesty dros y nadolig.

Ar hyn o bryd, rwy'n disgybl ym Mlwyddyn 13 yn Ysgol Bodhyfryd ac rwy'n chwilio am waith rhan amser - dros yr ŵyl ond ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd os yn bosib.

Mae gennyf brofiad o weithio mewn tŷ bwyta. Dros yr haf bûm yn gweithio yng Nghaffi'r Fro - yn paratoi bwyd ac yn gweini gan fwyaf ond yn ogystal, bûm yn clirio ac yn golchi'r llestri tra oeddwn i yno. Yn anffodus, daeth y gwaith i ben ar ddiwedd mis Awst. Rwy'n paratoi bwyd gartref bob nos gan mai fi sy'n gyfrifol am wneud y te bob dydd gan fod fy rhieni'n gweithio'n llawn amser.

Mae gen i TGAU, gradd B, mewn technoleg bwyd ac rwyf wedi astudio materion fel hylendid, sut i drin bwyd ac ati ar gyfer y cymhwyster hwn. Mae gennyf saith TGAU arall hefyd, gan gynnwys mathemateg, Saesneg a Chymraeg. Rwyf wedi gorffen gwaith y Fagloriaeth Gymraeg ac wedi cael profiad o weithio gydag eraill, datrys problemau a thrin arian, sgiliau sy'n help mawr ar gyfer gweithio mewn gwesty prysur fel eich un chi. Ar hyn o bryd rwy'n dilyn cwrs Lefel A yn yr ysgol ac yn astudio Ffrangeg, Saesneg a hanes.

Rwy'n berson dymunol, gweithgar ac rwy'n mwynhau cyfarfod a phobl.

Rwy'n amgau copi o fy CV, sy'n cynnwys enw a chyfeiriad dau ganolwr. Gobeithiaf …………………. yn clywed oddi wrthych yn y dyfodol agos. Rwyf ar gael i ddod am gyfweliad unrhyw brynhawn ar ôl hanner awr wedi tri.

Yn gywir,

*Rhys Smith*

Rhys Smith